

Enw'r corff: Swyddogion Cyngor Caerdydd

Beth yw eich profiad neu farn o'r gyfundrefn safonau? Yn arbennig y prosesau o osod a gorfodi'r safonau, a'ch profiad o weithredu neu baratoi i weithredu'r safonau o fewn eich corff.

Mae cyflwyno deddfwriaeth newydd yn ymwneud â'r Gymraeg wedi helpu ail godi ymwybyddiaeth staff y Cyngor ynglŷn â dyletswyddau awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau'n Gymraeg. Mae hyn wedi bod yn gyfle hefyd i ail hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ac i greu ymgyrch codi ymwybyddiaeth.

Roedd gennym fel Cyngor eisoes gynllun iaith gref o dan Ddeddf Iaith 1993 ac mae cyflwyno rheoliadau newydd wedi rhoi'r cyfle i ni ehangu rhai gwasanaethau Cymraeg i feysydd newydd megis Adnoddau Dynol a gwasanaethau mewnol. Yn sicr mae'r safonau newydd wedi arwain at gynydd sylweddol mewn argaeledd gwasanaethau Cymraeg mewn rhai awdurdodau lleol ac mae hyn yn rhywbeth i'r groesawi.

Mae safon 145/146 yn benodol wedi rhoi'r cyfle i ni fel awdurdod i greu strategaeth newydd ar gyfer hybu'r Gymraeg ar draws y ddinas sy'n beth hynod o bositif.

Serch hyn, mae nifer o broblemau sylfaenol yn bodoli yn nhrefn y safonau, yng ngeiriad rheoliadau safonau (rhif 1) 2015 ac yn y weithdrefn rheoleiddio.

Mae dros 170 o safonau wedi ei gosod ar y Cyngor ac mae'n her sylweddol i gyfathrebu a rheoleiddio cydymffurfiaeth a chyfathrebu'r gofynion i dros 7000 o staff. Gellid crynhoi'r gofynion yma i mewn i 50-70 safon fyddai'n gwneud y rheoliadau'n llawer cleiriach i'r cyhoedd ac i'r staff sy'n gweithredu'r safonau. Nid oes angen 12 safon ar ateb y ffôn yn unig na chwaith 6 ar gyfer creu 1 adroddiad blynyddol er enghraifft.

Hyd yn oed gyda chyn nifer o safonau, nid yw'r termau a'r gofynion bob tro'n glir ac yn anffodus nid yw swyddfa'r Comisiynydd yn barod i gynnig cyngor a'r ddehongli rhag i gŵyn ar y mater gael ei gyfeirio at y tribiwnlys yn y dyfodol. Gan mai'r Llywodraeth sydd wedi drafftio geiriad y safonau, mae'r Comisiynydd fel pawb arall yn dehongli'r gofynion yma, ac mae'r dehongliadau yma'n oddrychol.

Enghreifftiau penodol o'r termau lle gellid dehongli mewn sawl ffordd

- **Personau / Persons:** Cynghorwyr, trydydd parti, partneriaid, staff sefydliadau eraill?
- **Deunydd sy'n cael ei arddangos / Display Material:** Mae pob deunydd yn cael ei arddangos i ryw raddau. Hefyd yn allweddol, nid yw'r safon yma yn gyfyngedig i ddeunydd a gynhyrchir gan y sefydliad felly mae awdurdod lleol yn gyfrifol am sicrhau fod deunydd allanol yn ddwyieithog (e.e. posteri lucozade mewn canolfannau hamdden). Mae rhai sefydliadau wedi cael eithriad penodol ar gyfer deunydd trydydd parti (e.e. Cyngor arall), pam nad yw'r eithriad yma wedi ei gosod i bob awdurdod lleol? Mae rheoliadau rhif 2 + yn cywiro hyn.
- **Hysbysiadau Swyddogol / Official Notices:** Yn ôl y rheoliadau byddai bron popeth mae awdurdod lleol yn hysbysebu yn dod o dan y diffiniad yma felly

pam rhoi'r gair 'swyddogol' yn y gofyniad? Mae dehongliadau amrywiol ar gael ar draws sefydliadau ac o fewn sefydliadau sy'n gwneud rheoleiddio'r safon yn anodd. Byddai wedi bod o fydd cael safon fod rhaid arddangos popeth yn Gymraeg yn gyntaf.

At ddibenion safonau 7, 69 a 70 ystyr "hysbysiad swyddogol" yw unrhyw hysbysiad y mae corf yn ei gyhoeddi er mwyn rhoi gwybod i bersonau am weithgareddau cyflenwi gwasanaethau neu newidiadau i weithgareddau cyflenwi gwasanaethau'r corff, ond nid yw'n cynnwys hysbysiadau swyddogol a ragnodir gan ddeddfiad.

- **Cyrsiau Addysg:** Nofio a chysiau hamdden megis karate ac ati?
- **Partneriaethau:** Nid yw'n glir ar bwy mae'r cyfrifoldeb pan fydd sefydliad o fewn partneriaeth eang, unai â sefydliadau eraill neu grwpiau cymunedol er enghraifft.

Croesawn weld mwy o gyngor gan lywodraeth Cymru a'r Comisiynydd neu asiantaeth newydd ar weithredu'r safonau, a hyd yn oed mwy o wybodaeth dehongli yn y rheoliadau ei hunain er mwyn cynorthwyo gweithredu'r safonau. Rydym dal i aros am y codau ymarfer hir ddisgwyliedig gan swyddfa'r Comisiynydd. Dylid sicrhau fod y Comisiynydd yn cyhoeddi codau ymarfer bob 6 mis.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori nid oeddem wedi gwerthfawrogi gymaint fyddai effaith y safonau ar systemau, arwyddion neu ddogfennau sydd eisoes yn bodoli. Er enghraifft fel Cyngor rydym wedi gorfod caffael a gorchymyn ein contractwyr i gaffael arwyddion newydd dros dro â'r Gymraeg yn gyntaf (safon 62) yn dilyn penderfyniad Comisiynydd y Gymraeg i ymchwiliadau CSG48 a CSG56. Nid yw geiriad y safon 61/62 yn glir ac rydym yn deall fod Llywodraeth Cymru yn anghytuno â dehongliad y Comisiynydd ar y mater hwn [*sef mai'r weithred o osod arwydd ac nid dyddiad creu'r arwydd sydd dan sylw yn safon 62*]. Mae dehongliad o'r fath gan y Comisiynydd yn golygu fod awdurdodau'r De a Dwyrain Cymru yn cael eu cosbi am nad oedd Deddf Iaith 1993 wedi nodi pa iaith a ddylid ymddangos gyntaf. Byddai'n fwy rhesymol gwneud newidiadau i systemau sy'n ddwyieithog yn barod wrth iddynt gael ei diweddarau (ond â'r Saesneg uwchben y Gymraeg). Er nad yw'r safonau'n nodi hyn, mae'r Comisiynydd hefyd wedi cadarnhau fod yn rhaid i ddogfennau 'byw' a chyhoeddwyd cyn i'r safonau ddod i rym fod yn ddwyieithog, felly mae gennym sefyllfa lle rydym yn cyfieithu hen ddogfennau er mwyn cydymffurfio e.e. Polisiâu o 2007 ac ati.

Rydym hefyd wedi cael sefyllfa lle mae'r Comisiynydd wedi newid ei barn ar ddehongliad o safon ar ôl rhoi dyfarniad er mwyn osgoi gorfod cymryd achos i'r Tribiwnlys gan nad oedd yr achwynydd yn fodlon gyda'r penderfyniad gwreiddiol. Roedd ymchwiliad CSG51 sydd dal ar agor wedi dod i'r casgliad yn wreiddiol nad oeddem wedi torri safon 60 ar beiriannau hunanwasanaeth dwyieithog yn ein meysydd parcio ac mewn llyfrgelloedd er eu bod yn ddwyieithog (er bod yn rhaid dewis 'Cymraeg'). Ond ar ôl i'r achwynydd benderfynu herio'r dyfarniad fe roddwyd dyfarniad arall i ni oedd yn cadarnhau ein bod wedi torri'r safon gan mai'r iaith osod oedd Saesneg ond â dewis iaith Cymraeg. Mae'r peiriannau hunanwasanaeth yma wedi eu sefydlu blynyddoedd cyn i'r safonau ddod i rym ac yn hollol ddwyieithog, ond oherwydd y dehongliad newydd yma rydym yn mynd i orfod rhoi trefniadau mewn lle

i droi'r holl beiriannau yn rhai 'default' Cymraeg gyda'r dewis Saesneg. Yn amlwg mae cost ynghlwm wrth y gwaith hwn, ac rydym yn gobeithio y bydd y Comisiynydd yn hysbysu'r holl sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r safonau fod rhaid i beiriannau un ai ddangos dewis iaith ar y dudalen agoriadol neu fod yn Gymraeg fel yr iaith sydd wedi gosod (yn berthnasol i bob peiriant, waeth pryd cawsant eu gosod).

Fel Cyngor rydym yn llwyr gefnogol i gefnogi'r Gymraeg ond rydym yn bryderus nad yw penderfyniadau / dehongliadau mawr tebyg i hyn fydd yn cael effaith ar sefydliadau ar draws Cymru yn cael eu cyfathrebu gan y Comisiynydd.

Mae trefn y Safonau hefyd yn golygu fod rhaid 'herio' safonau er mwyn derbyn eithriadau penodol neu ychydig o eglurdeb pellach ynglŷn â'r gofynion, ac mae hyn wedi arwain at ddiffyg 'safon' ar draws sectorau a rhanbarthau. Mae'r system wedi gwobrwyo'r sefydliadau sydd wedi herio fwyaf. Dylai'r drefn ganiatáu hyblygrwydd i'r Comisiynydd ddyrannu diwygiadau i safonau i bob sefydliad wrth adnabod materion/problemau systematig ar draws sectorau cyfan.

O ran cyfieithu a dogfennau, hoffem weld sefyllfa lle mae pob dogfen gyhoeddus ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar draws pob sefydliad yng Nghymru, ond rhaid blaenoriaethu adnoddau cyfieithu. Mae gofynion safon 41 yn benodol yn golygu ein bod yn cyfieithu hyd at 60 mil o eiriau pob mis ar gyfer cofnodion is-bwyllgorau lle prin yw'r bobl sy'n darllen rhai o'r cofnodion yn Saesneg heb sôn am y Gymraeg.

Cwynion

Mae angen diwygio'r broses gwyno â gorfodi yn ddirfawr a symud i drefn tebyg i'r ombwdsman lle y caiff gwynion eu cyfeirio i'r rheoleiddiwr dim ond pan nad yw'r sefydliad wedi deilio â'r mater yn ddigonol. Nid yw'r ombwdsman yn ymgymryd ag ymchwiliad sy'n para 4 mis neu'n fwy ar sail 1 tweet. Gellid wrth gwrs gwneud eithriadau lle ystyrir i'r gŵyn fod yn un difrifol. Er enghraifft, rydym wedi derbyn ymchwiliadau sydd wedi para misoedd am arwydd â chamsillafiad Gymraeg, er ein bod wedi ymateb i'r Comisiynydd wrth ddilysu cyfrifoldeb yn dweud fod yr arwydd bellach wedi ei thynnu lawr. Hefyd yn yr ymateb fe wnaethom ni gadarnhau mai arwydd o 2009 oedd hwn, felly byddai'r Comisiynydd yn ymwybodol o'r ymateb cyntaf nad oedd ganddi unrhyw bŵer gorfodi yn yr achos yma. Terfynwyd y gwyn 2 fis yn ddiweddarach gan *"Ystyrir y byddai parhau gyda'r ymchwiliad yn amlygu defnydd anghymesur o adnoddau'r Comisiynydd."*

Y drefn ymchwilio yw

1. Sefydliad yn dilysu
2. Sefydliad yn rhoi sylwadau ar y cylch gorchwyl
3. Sefydliad yn darparu tystiolaeth
4. Derbyn ac ymateb i'r penderfyniad arfaethedig
5. Derbyn y penderfyniad terfynol

Mae'r broses yn cymryd o leiaf 3-4 mis, waeth pa mor syml yw'r gwyn / ymchwiliad, ac mae angen i'r sefydliad ddarparu 5 ymateb i bob cwyn. Nid yw'r weithdrefn yma'n gynaliadwy.

Ar y cyfan nid yw'r cyhoedd yn ymwybodol fod cwyno i'r sefydliad yn uniongyrchol gan amlaf yn arwain at ddatrysiad llawr yn gynt. Mae'r weithdrefn lle nad yw'r

Comisiynydd yn barod i dderbyn ymateb cychwynnol neu dystiolaeth tan ein bod dros mis i fewn i'r ymchwiliad angen newid. Mae'r Comisiynydd ond yn ystyried p'un a'i fod safon wedi ei dorri neu ddim, ac mae'r ymchwiliadau i gyrsiau nofio yn enghraifft perffaith o wedid y safonau a'r drefn presennol.

Fe dderbyniodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ymchwiliad ynglŷn â darpariaeth gwersi nofio Cymraeg yn seiliedig ar gŵyn gan Gymdeithas yr Iaith. Er bod y Cyngor yn ariannu'r Fenter â'r Urdd i ddarparu rhwng 30-40 o wersi nofio Cymraeg pob wythnos, cafwyd ein bod wedi torri mwy o safonau nag awdurdodau eraill nad oedd yn cynnig yr un wers cyfrwng Cymraeg (e.e. Cyngor Torfaen). Y rheswm am hyn yw nad oedd yr asesiad angen ar ein gwefan ni ond yn hytrach a'r wefan y Fenter, ac felly'n dechnegol rydym wedi torri'r safon 86. Fel Cyngor rydym yn cyllido Menter Iaith a'r Urdd i asesu'r galw a ddarparu cyrsiau nofio ar ein rhan oherwydd fod ganddynt arbenigedd yn y maes a hefyd hyfforddwyr cyfrwng Cymraeg. Nid oes cydnabyddiaeth o fewn y drefn ymchwilio am wasanaethau sydd yn cael eu darparu'n Gymraeg.

Y perygl o ganolbwyntio ar yr ochr rheoleiddio yn unig yw bod modd cynnig llawer yn llai o weithgareddau a gwasanaethau Cymraeg heb dorri safon benodol. Nid yw'r asesiad ar gyrsiau addysg yn nodi meini prawf, felly gall sefydliad sicrhau nad oes byth 'galw digonol' i gomisiynu cyrsiau Cymraeg. Gan fod y Comisiynydd ond yn edrych ar ba safonau sydd wedi torri mae'n ddealladwy efallai fod rhai swyddogion a sefydliadau ond yn edrych ar gydymffurfiaeth yn hytrach na pa wasanaethau Cymraeg dylid cynnig.

Mae rôl Comisiynydd y Gymraeg yn cynnwys swyddogaethau rheoleiddio a chyfrifoldebau am hybu a hyrwyddo defnydd yr iaith. Ydy'r balans yn gywir?

Cyn i'r safonau ddod i rym bu swyddfa'r Comisiynydd yn pwysleisio ei rôl newydd fel reoleiddiwr yn hytrach na corff i hyrwyddo'r Gymraeg tebyg i'r Bwrdd Iaith gynt. Cafwyd nifer o areithiau gan swyddfa'r Comisiynydd i esbonio fod y berthynas rhwng y sefydliad a'r Comisiynydd yn mynd i newid o dan y safonau. Rydym fel sefydliad wedi derbyn dros 21 o ymchwiliadau gan swyddfa'r Comisiynydd, sy'n ganlyniad o bosib i'r ffaith i ni beidio herio unrhyw un o'r safonau na gofyn am unrhyw eithriadau o gwbl. Dylai'r Comisiynydd sicrhau fod canlyniadau neu grynoded o bob ymchwiliad yn cael ei ddosbarthu i gyswllt o fewn pob sefydliad (e.e. y swyddog iaith). Byddai hyn yn arwain at wella gwasanaethau a mwy o ar ddeall ar draws sefydliadau o ofynion y safonau. Rydym wedi synnu nad oes braidd dim gwybodaeth ar restr gorfodi'r Comisiynydd. Er fod y Comisiynydd yn gwneud gwaith hyrwyddo dwi'n siŵr, mae'r gwaith yma gan fwyaf yn gyfyngedig i sefydliadau nad sydd yn dod o dan ddyletswyddau statudol (3ydd sector ayyb). Mae absenoldeb amlwg yng ngwaith hyrwyddo a hwyluso y Comisiynydd gyda sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r safonau megis awdurdodau lleol. Ni all y Comisiynydd gynnig unrhyw 'gyngor' adeiladol i sefydliadau ar gydymffurfio â'r safonau dim ond dyfynnu'r gofynion oherwydd ei rôl fel rheoleiddiwr.

Beth yw eich profiad neu farn am y trefniadau presennol am hybu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg?

O ran gofynion y safonau, mae safon 145 wedi arwain at greu Strategaeth ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg ar draws y ddinas. Nid oes gofyniad i gyflwyno'r strategaeth i'r Comisiynydd neu'r Llywodraeth felly mae cynnwys y strategaethau

yma'n gyfrifoldeb llwyr i'r awdurdodau lleol. Gan fod Llywodraeth Cymru ar fin cyhoeddi strategaeth miliwn o siaradwyr Cymraeg byddai wedi bod yn ddefnyddiol derbyn mwy o gyngor ar sut y gall awdurdodau lleol gyfrannu at gyrraedd y nod yma neu hyd yn oed sicrhau fod y dyddiadau cydymffurfio yn cyd-fynd. Mae gan y Comisiynydd swyddogion sy'n gyfrifol am hybu a hwyluso'r Gymraeg i sefydliadau preifat ond mae angen pwyslais ar rannu arfer da a hwyluso'r Gymraeg mewn sefydliadau'r safonau hefyd.

Pwy ddylai fod yn gyfrifol am hybu defnydd y Gymraeg?

Mae'r Comisiynydd yn reoleiddiwr ac yn sicr mae angen reoleiddiwr â phwerau er mwyn sicrhau fod sefydliadau yn darparu gwasanaethau dwyieithog. Gyda'r sefyllfa ariannol mor heriol i awdurdodau lleol â chost cydymffurfio â rhai o'r safonau mor uchel, mae angen edrych ar sut i hybu defnydd o wasanaethau Cymraeg fel blaenoriaeth. Mae angen cynyddu'r uchafswm dirwy o £5,000 i oleuaf £10,000 gan fod cyfieithu rhai dogfennau unigol neu chydymffurfio â safon 41 am fis yn gallu costio dros £5,000. Mae'r newid i drefn y safonau yn sicr wedi achosi newid gyda adrannau ac unigolion ac mae'n bwysig nad ydym ni'n dychwelyd i sefyllfa lle nad os oblygiadau i sefydliadau sy'n torri safonau rhesymol.

Mae absenoldeb corff lled braich o'r llywodraeth i hybu'r Gymraeg yn amlwg, ac nid rheoleiddiwr fel y Comisiynydd na chwaith Llywodraeth Cymru ddylai fod yn gyfrifol am hyn. Dylai'r Comisiynydd parhau i osod safonau a sicrhau cydymffurfiaeth yn ogystal â gwarantu hawliau unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae hefyd wrth gwrs angen uned bolisi Cymraeg yn y Llywodraeth i gynllunio'r is-adeilwaith ar gyfer creu miliwn o siaradwyr Cymraeg. Ond o ran hybu a hyrwyddo defnydd iaith a chynorthwyo sefydliadau a rhannu arfer da, byddai o fudd mawr cael corff newydd sy'n gyfrifol am yr agweddau yma yn ogystal â dyrannu grantiau, gweithio gyda sefydliadau preifat a chraffu ar weithdrefnau sefydliadau er mwyn cynnig cymorth a chynghor adeiladol. Mae'r Llywodraeth wedi bod yn ymgymryd ag elfennau o'r gwaith yma ond byddai cael corff lled braich â dyletswyddau penodol dros hybu defnydd y Gymraeg â chynyddu dwyieithrwydd yn gyffrous iawn a fyddai'n ysgogi'r newid sydd ei angen er mwyn sicrhau fod Cymru yn dod yn wlad gwbl ddwyieithog.

